ystadau cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate



## Rhifyn 4

# Croeso i gylchlythyr Haf 2021

# Cynnwys

Y diweddaraf gan ein Cadeirydd, Umar Hussain MBE 3

Y Diweddaraf gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol 5

Rhaglen Ddysgu lwyddiannus YC gyda CIPFA 6

Cynhadledd a Gwobrau YC 2021 6

Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru 7

System i gymryd lle'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Mapio Eiddo electronig (e-PIMS) 7

# Y diweddaraf gan ein Cadeirydd, Umar Hussain MBE



Croeso i 4ydd rhifyn Ystadau Cymru, y cylchlythyr ar gyfer ein cydweithwyr sy'n rheoli'r ystâd gyhoeddus yng Nghymru. Mae hi wedi bod ac yn parhau'n gyfnod o weithgarwch eithriadol, lle mae timau'r ystadau wedi arfer sgiliau rhyfeddol wrth sicrhau amgylchedd gwaith diogel ledled Cymru a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Mae Ystadau Cymru bellach yn rhwydwaith byrlymus o weithwyr proffesiynol brwd sy'n ymroi i wireddu'n gweledigaeth ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r ystâd gyhoeddus. I helpu'r cydweithio hwn, yn ogystal â rhannu a dathlu gwaith da, rydyn ni wedi cyhoeddi:

- Pecyn Cydweithredu ynghylch Eiddo
- Canllaw Trosglwyddo Asedau Cymunedol
- Protocol Cydleoli Ystadau a Throsglwyddo Tir
- Nodi a Gwaredu Tir ac Adeiladau Dros Ben Anghraidd Llywodraeth Cymru
- Papur ymchwil i Drosglwyddo Asedau Cymunedol
- Canllawiau ar Gaffael Asedau Eiddo gan Lywodraeth Cymru

Mae Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, wedi rhoi cefnogaeth ardderchog i ni a’n pwyslais o hyd at y dyfodol fydd Datgarboneiddio, Bioamrywiaeth ac o ganlyniad i’r pandemig, y Strategaeth Weithle newydd. Mae’n bryd felly pasio baton arweinydd Ystadau Cymru ar eich rhan i rywun arall. Mae’n bleser gen i felly gyflwyno Beverly Owen, Prif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd sydd wedi cytuno i ofalu am gam nesa’n taith fel cadeirydd newydd Ystadau Cymru.

Mae gan Beverly radd mewn Tai ac Adfywio, a thros 20 mlynedd o brofiad lefel uchel ym maes llywodraeth leol ar draws nifer o swyddi prif weithredwr. Ar ôl iddi arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno nifer o raglenni adfywio economaidd a chymdeithasol mawr yn Ne-ddwyrain Cymru, penodwyd Beverly yn Brif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd ym mis Gorffennaf 2020.



Mae Beverly yn angerddol am dwf economaidd sy’n seiliedig ar gynaliadwyedd a chymunedau gwydn, ac mae hi’n parhau i fod yn gyfrifol am y portffolio Adfywio yng Nghasnewydd. Cyn hyn, Beverly oedd y Cyfarwyddwr a sefydlodd Bwrdd Ffowndri Lled-ddargludyddion Cyfansawdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac ar hyn o bryd, hi yw’r Cyfarwyddwr y mae’r Cyngor wedi’i phenodi i Gwmni Eiddo Menter ar y Cyd Norse Casnewydd.

Rwy’n llawn parch at eich agwedd adeiladol a’ch ymateb i’n nodau ac rwy’n gobeithio y rhowch chi’r un cynhesrwydd a chefnogaeth i Beverly ag y cefais i gennych.

*Diolch.*

# Y Diweddaraf gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol



Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i gyfrannu at 4ydd rhifyn cylchlythyr Ystadau Cymru ac i rannu newyddion pwysig iawn â chi.

Mae Llywodraeth Cymru newydd gyhoeddi'i **Rhaglen Lywodraethu** **https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026** a'r **Datganiad llesiant** **https://llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-2021-i-2026-datganiad-llesiant?_ga=2.161227901.1989535580.1625739111-1721801471.1610439210** cysylltiedig ar gyfer tymor nesa'r Senedd. Maen nhw'n gosod allan y set uchelgeisiol o ymrwymiadau y mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu gwireddu y tymor hwn. Bydd Rhaglen Lywodraethu'n creu Cymru gryfach, tecach, gwyrddach a charedicach sy'n mynd i'r afael â'r heriau digynsail rydym yn eu hwynebu tra'n caniatáu i ni edrych tua'r dyfodol yn llawn gobaith ac optimistiaeth.

Mae'n rhaglen ymarferol sy'n canolbwyntio ar sut y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â helpu'n cymunedau i ffynnu trwy weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ar bob lefel. Mae hi hefyd yn rhoi mwy o bwys ar gydweithio nag ar gystadlu, gan ddangos sut y byddwn yn gweithio i sicrhau cymaint o degwch â phosibl i bawb a chael gwared ar anghydraddoldeb yn y gymdeithas gyfan. Mae pobl yng Nghymru'n gofalu am ei gilydd a dyna'r egwyddor sy'n sail i'r rhaglen.

Cydweithio sydd wrth wraidd Ystadau Cymru ac rwy'n disgwyl ymlaen at weld ei rhaglen gyflenwi a sut y bydd yn cefnogi blaenoriaethau'r llywodraeth newydd. Mae sefydlu'r llywodraeth newydd yn cyd-ddigwydd hefyd â newidiadau yn y ffordd y mae YC yn cael ei rheoli.

Am y 2 flynedd ddiwethaf, mae'r gadeiryddiaeth wedi bod o dan ofal Umar Hussain MBE. O dan ei gyfarwyddyd, mae Ystadau Cymru wedi cynnal nifer o brosiectau cydweithredol pwysig ac wedi hyrwyddo arferion da i gefnogi'r gwaith pwysig hwn. Mae Umar bellach wedi penderfynu ildio'r gadair, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddo am ei frwdfrydedd, egni a'i ymroddiad dros Ystadau Cymru, gan gynnwys sefydlu'r gwobrau blynyddol. Bydd effaith ei waith yn para ymhell ar ôl iddo ildio'r gadair, ac rwy'n ddiolchgar iawn iddo.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rwy'n falch o gael cyhoeddi mai cadeirydd newydd Ystadau Cymru yw Beverley Owen, Prif Weithredwr Cyngor Dinas Casnewydd. Rwy'n disgwyl ymlaen at weithio gyda Beverley, at glywed ei sylwadau a'i syniadau ar gyfer y rhaglen a sut y gall Ystadau Cymru gefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth newydd.

I gloi, rwy'n gobeithio cael siarad â chi eto nes ymlaen yn y flwyddyn yng Nghynhadledd a Seremoni Wobrwyo nesaf Ystadau Cymru. Gwn y bydd hynny'n llwyfan i ddangos y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan y sector cyhoeddus ledled Cymru, a hynny o dan yr amgylchiadau anoddaf eu dychmygu.

## Rhaglen Ddysgu lwyddiannus YC gyda CIPFA

Cafodd Rhaglen Hyfforddiant a Sgiliau Ystadau Cymru ei lansio’n llwyddiannus yn y digwyddiad “Cyflwyniad i’r Landlord Corfforaethol” ym mis Mai. Mae dau ddigwyddiad arall wedi’u cynnal ers hynny, ‘Arweinwyr Rheoli Asedau Strategol’ a ‘Chynnal Gorchmynion Prynu Gorfodol Llwyddiannus’. Roedd y tri’n boblogaidd gyda 70 o bobl ar gyfartaledd yn bresennol ym mhob un.

Caiff ail rownd o ddigwyddiadau hyfforddi ei chynnal ar ôl toriad yr haf, gan ddechrau ym mis Medi.

Y cyrsiau hynny fydd:


| | |
|---|---|
| **Medi:** | **Adeiladu mwy o gartrefi carbon isel** |
| **Hydref:** | **Paratoi ar gyfer adeiladu mwy o gartrefi cymdeithasol i’w rhentu** |
| **Tachwedd:** | **Rhoi Gwerth i’r Cyhoedd** – ymagwedd strategol at werth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd |
| **Rhagfyr:** | **Digwyddiad i’w gadarnhau** |

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw ddigwyddiad sy’n cael ei gynnal gan Ystadau Cymru, e-bostiwch: **ystadaucymru@gov.wales**

# Cynhadledd a Gwobrau YC 2021

### COFIWCH Y DYDDIAD – 2 Rhagfyr 2021

Bydd Ystadau Cymru’n cynnal ei chynhadledd a seremoni wobrwyo flynyddol ar 2 Rhagfyr 2021. Bydd y gynhadledd yn gyfle i drafod pynciau sy’n gysylltiedig â’r Rhaglen Lywodraethu newydd a bydd y gwobrau’n dathlu’r cydweithio gwych a fu ar ystâd y sector cyhoeddus.



# Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru

Pwnc cyfarfod Bwrdd Ystadau Cymru ym mis Mawrth oedd datgarboneiddio. Cafodd y Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru 2021 – 2030 ei gyflwyno yno gan Chris Lewis, Prif Gynghorydd yr Amgylchedd a Chyfleusterau GIG Cymru.

Cafodd y cynllun ei greu ar y cyd rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a Llywodraeth Cymru a chafodd ei lansio ym mis Mawrth 2021.

**https://llyw.cymru/cynllun-cyflenwi-strategol-ar-gyfer-datgarboneiddio-gig-cymru**

## System i gymryd lle'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Mapio Eiddo electronig (e-PIMS)

Nes ymlaen eleni, bydd system fapio newydd o'r enw 'InSite' o dan ofal Swyddfa Gabinet y DU yn cael ei sefydlu i gymryd lle e-PIMS. Bydd yn blatfform digidol fydd yn crynhoi data strategol am dir, eiddo a phobl y Llywodraeth i gyd yn yr un lle. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth economaidd-gymdeithasol.

Bydd yn gwella'r modd y caiff ystâd y llywodraeth ei rheoli'n strategol ac yn helpu cyrff cyhoeddus eraill hefyd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell. Bydd yn hwyluso'r gwaith o gael hyd i dir ar gyfer ei ddatblygu ac yn gwella perfformiad strategol trwy gymharu cost, defnydd a pherfformiad amgylcheddol.

Bydd yr erfyn 'darganfod eiddo llywodraeth' yn gwella'r llwyfan ddigidol ar gyfer gwerthu ystâd ofer gan roi gwybod i'r farchnad am asedau eiddo'r llywodraeth sydd ar werth.

Caiff y system ei chyflwyno ddechrau blwyddyn nesaf ac mae YC wedi cyhoeddi nodyn amdani i ddefnyddwyr yng Nghymru.  Os hoffech ragor o wybodaeth am InSite, cysylltwch â nigel.thomas2@gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG45216